WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu - Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 586A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol,
nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - infoofficer@wao.gov.uk..

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Charlotte Owen, Paul Goodlad, Gwilym Bury a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i anghenion cyfredol ac yn datblygu ei drefniadau i wynebu heriau yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 6

Mae gan y Cyngor amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo swyddogaeth graffu effeithiol sydd yn cael ei gwerthfawrogi, ond mae angen datblygu mwy ar y trefniadau sydd eu hangen i wynebu heriau craffu yn y dyfodol 7

Wrth gynllunio i graffu'n dda ceir ymagwedd gytbwys at ddefnyddio craffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ond mae lle i aelodau pwyllgor gymryd rheolaeth well ar eu blaenraglenni gwaith a chynnwys y cyhoedd yn fwy. 8

Mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu ond nid yw'n gwerthuso ei heffaith 10

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol 12

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014) 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Bu'r adolygiad hwn yn archwilio pa mor 'addas ar gyfer y dyfodol' yw swyddogaethau craffu pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru. Buom yn ystyried sut mae cynghorau'n ymateb i heriau cyfredol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LlCD) mewn perthynas â'i gweithgarwch craffu, yn ogystal â'r modd y mae cynghorau'n dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Buom hefyd yn archwilio pa mor dda yw sefyllfa'r cynghorau o ran eu gallu i ymateb i heriau yn y dyfodol, fel pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r newid posibl tuag at fwy o waith rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Yn rhan o'r adolygiad hwn, buom hefyd yn adolygu cynnydd y cynghorau wrth ymdrin ag argymhellion ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol gynharach **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Buom hefyd ar drywydd y cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i'r swyddogaeth graffu ac a gyhoeddwyd gennym mewn adroddiadau lleol, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd i gynghorau yn rhan o'n hadolygiadau thematig yn 2016-17, sef Cynllunio Arbedion a Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi ffyrdd o ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu, yn sail ar gyfer rhannu arferion a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â Deddf LlCD;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau'r presennol a'r dyfodol;
- helpu i ymwreiddio trefniadau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o gychwyn y cylch etholiadol newydd; a
- rhoi syniad o'r graddau y mae cynghorau wedi llwyddo i ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Gwella Craffu flaenorol.

4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, seiliwyd ein dull adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trosolwg a Chraffu Effeithiol mewn Llywodraeth Leol, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt â rhanddeiliaid ym maes craffu yng Nghymru, yn dilyn ein Hastudiaeth Gwella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**.

5 Yn ystod mis Ionawr 2018, buom yn cynnal adolygiadau o ddogfennau, yn cyfweld â swyddogion allweddol ac yn cynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr i ddeall eu safbwyntiau ynghylch trefniadau craffu cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor). Buom yn edrych yn benodol ar ymdriniaeth y Cyngor â'r heriau a nodir uchod, a'r modd y mae'n bwriadu ymateb i'r heriau hynny.

6 Buom yn arsylwi sampl o gyfarfodydd craffu ac yn adolygu dogfennau a oedd yn berthnasol i'r cyfarfodydd hynny ac a ddarparwyd i'r aelodau i gefnogi eu rôl craffu, fel adroddiadau a chyflwyniadau,

7 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'r casgliad bod swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i anghenion cyfredol ac yn datblygu ei drefniadau i wynebu heriau'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a. ceir amgylchedd cefnogol o fewn y Cyngor sy'n hyrwyddo swyddogaeth graffu effeithiol sydd yn cael ei gwerthfawrogi, ond mae angen datblygu mwy ar y trefniadau sydd eu hangen i wynebu heriau craffu yn y dyfodol;
b. wrth gynllunio craffu'n dda ceir ymagwedd gytbwys at ddefnyddio craffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ond mae lle i aelodau pwyllgor gymryd rheolaeth well ar eu blaenraglenni gwaith a chynnwys y cyhoedd yn fwy; ac
c. mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu yn rheolaidd ond nid yw'n gwerthuso ei heffaith.

# Cynigion ar gyfer gwella

8 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion o ran sut y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn iddo fod mewn sefyllfa well i wynebu heriau cyfredol a heriau'r dyfodol.

Dangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| **Cynnig ar gyfer gwella** |
| --- |
| C1 Gellid gwella swyddogaeth graffu'r Cyngor fel a ganlyn:<br>• bod aelodau'r pwyllgor craffu yn cymryd mwy o reolaeth dros flaenraglenni gwaith y pwyllgor; a<br>• chynyddu cyfranogiad y cyhoedd yn y broses graffu. |

# Adroddiad manwl

## Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i anghenion cyfredol ac yn datblygu ei drefniadau i wynebu heriau yn y dyfodol

### Mae gan y Cyngor amgylchedd cefnogol sy'n hyrwyddo swyddogaeth graffu effeithiol sydd yn cael ei gwerthfawrogi, ond mae angen datblygu mwy ar y trefniadau sydd eu hangen i wynebu heriau craffu yn y dyfodol

9 Ceir diffiniad clir o rôl y swyddogaeth trosolwg a chraffu yng Nghonwy yng nghyfansoddiad y Cyngor, a hefyd yn ei Ganllaw ar Weithredu Trosolwg a Chraffu. Mae'r ddwy ddogfen hefyd yn nodi rolau a chyfrifoldebau cynghorwyr o ran trosolwg a chraffu.

10 Mae gan y Cyngor bedwar pwyllgor trosolwg a chraffu a gefnogir gan grwpiau gorchwyl a gorffen pan fo angen. Yn ogystal â hyn, mae amrywiaeth o weithgareddau craffu anffurfiol yn ategu ac yn cyfrannu at y strwythur pwyllgorau craffu ffurfiol. Er enghraifft, bydd aelodau craffu yn cymryd rhan mewn adolygiadau perfformiad gwasanaeth, yng ngweithgor y gyllideb ac ar fyrddau moderneiddio. Mae cymryd rhan fel hyn yn rhoi mewnwelediad pellach i aelodau craffu i'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, ac mae eu hadborth yn rhoi cyfle i bwyllgorau craffu lywio materion yn fuan.

11 Mae swyddogion a chynghorwyr yn ystyried bod craffu yn swyddogaeth effeithiol, sy'n ychwanegu gwerth. Dywedodd aelodau Cabinet y buom yn siarad â hwy fod craffu cyn gwneud penderfyniadau o gymorth i gryfhau'r broses benderfynu o fewn y Cyngor gan roi safbwyntiau gwerthfawr o bob plaid ac o bob rhan o'r sir. Mae aelodau'r Cabinet hefyd yn gwerthfawrogi'r mewnwelediad a'r awgrymiadau a geir yn sgil craffu, a gallent gyfeirio at amryw o enghreifftiau lle ychwanegwyd gwerth drwy graffu.

12 Mae'r Cyngor yn darparu rhaglen gynefino gynhwysfawr i gynghorwyr newydd ac mae ganddo raglen datblygu'r aelodau er mwyn darparu hyfforddiant parhaus. Darperir hyfforddiant yn fewnol a chan sefydliadau allanol, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn rhan o broses gynefino 2017, derbyniodd cynghorwyr hyfforddiant ar gwestiynau craffu a chadeirio craffu effeithiol, yn ogystal â sesiynau mwy cyffredinol ar y broses benderfynu, cydraddoldeb a chyllid a chyllidebau llywodraeth leol. Rhoddodd cynghorwyr sylwadau cadarnhaol ar yr hyfforddiant a dderbyniwyd. Fodd bynnag, roedd rhai o'r cynghorwyr y buom yn siarad â hwy a oedd yn newydd i'r swydd yn teimlo eu bod wedi'u llethu gan yr holl wybodaeth. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r pryderon hyn, wedi adolygu'r broses gynefino, ac eisoes yn ailadrodd rhai sesiynau mewn ymateb i geisiadau gan gynghorwyr.

13 Mae'r Cyngor wedi adolygu ei ddarpariaeth hyfforddi yn sgil heriau allweddol yn y dyfodol. Er enghraifft, mae cynghorwyr wedi derbyn sesiynau codi ymwybyddiaeth ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar benderfyniadau a gwaith craffu allweddol yng nghyd-destun y Ddeddf. Roedd rhaglen gynefino 2016 hefyd yn cynnwys gweithdy rhanbarthol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r

Dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio i ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac wedi diweddaru'r templed ar gyfer adroddiadau craffu i gyfeirio'n uniongyrchol at y Ddeddf. Mae Canllaw'r Cyngor ar Weithredu Trosolwg a Chraffu hefyd yn cynnwys adran ar y mathau o gwestiynau y gallai aelodau craffu fod eisiau eu hystyried yn gysylltiedig ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf.

14 Fodd bynnag, bu'r hyfforddiant i gynghorwyr ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn brin, a byddai aelodau craffu yn elwa ar hyfforddiant i'w paratoi i graffu ar waith rhanbarthol. Roedd y cwrs cynefino i gynghorwyr yn cyfeirio at modiwlau hyfforddi ar y BGC, ond hyd yma ychydig o hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnal sy'n canolbwyntio ar graffu ar y BGC. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i ddatblygu papur opsiynau ar gyfer trefniadau yn y dyfodol i graffu ar Gyd-fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal hyfforddiant pellach i gynghorwyr cyn gynted ag y bo'r trefniadau wedi'u cwblhau. Yn y cyfamser, mae Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau'r Cyngor yn gyfrifol am graffu ar y BGC.

15 Roedd aelodau'r Pwyllgor yn canmol y gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan swyddogion ym maes craffu. Mae gan y Cyngor un Swyddog Cefnogi Craffu, ac mae cefnogi hefyd yn rhan o rôl y Swyddog Pwyllgor. Fodd bynnag, oherwydd prinder capasiti ymhlith swyddogion, ychydig o gyfle a geir i gyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi penodol. Mae mwy o gefnogaeth ar gyfer y swyddogaeth graffu ar gael gan swyddogion mewn gwasanaethau, fel bo'r angen. Er enghraifft, bydd grwpiau gorchwyl a gorffen yn derbyn cefnogaeth gan swyddogion o'r gwasanaeth perthnasol, a swyddogion cyswllt yn bresennol yng nghyfarfodydd anffurfiol y cadeiryddion, gan greu dull effeithlon o drosglwyddo gwybodaeth rhwng y swyddogaeth graffu a gwasanaethau'r cyngor. Nid yw'n glir eto pa effaith y bydd craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei chael ar y capasiti i gefnogi craffu. Bydd angen i'r Cyngor ailasesu lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y swyddogaeth graffu yn rhan o'r papur opsiynau sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## Wrth gynllunio i graffu'n dda ceir ymagwedd gytbwys at ddefnyddio craffu cyn ac ar ôl penderfyniadau, ond mae lle i aelodau pwyllgor gymryd rheolaeth well ar eu blaenraglenni gwaith a chynnwys y cyhoedd yn fwy.

16 Mae gan bob pwyllgor trosolwg a chraffu flaenraglen waith fanwl. Mae cadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu yn gyfrifol am reoli'r rhaglen. Maent yn sicrhau bod gwaith craffu yn gyson â blaenraglenni gwaith y Cabinet ac yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau Cabinet a'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn trafod pa eitemau i'w cynnwys. Gall cynghorwyr, swyddogion a'r cyhoedd gyflwyno ffurflenni cais am destun craffu, ac asesir y ffurflenni hynny gan gadeiryddion ac is-gadeiryddion y pwyllgorau craffu drwy ddefnyddio matrics sgorio. Rhoddir blaenoriaeth i bynciau lle gellir ychwanegu gwerth drwy graffu, ac sydd yn gyson â chanlyniadau Cynllun Corfforaethol y Cyngor neu sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Mae'r blaenraglenni gwaith hefyd yn cynnwys nifer o eitemau sefydlog, fel cynlluniau busnes meysydd gwasanaeth a monitro cyllidebau a pherfformiad.

17 Mae lle i aelodau craffu gymryd mwy o berchnogaeth ar y blaenraglenni gwaith. Swyddogion sydd yn cyflwyno'r rhan fwyaf o ffurflenni cais am destun craffu, er y gallai rhai o'r ffurflenni hyn fod wedi cael eu hysgogi'n wreiddiol gan sgyrsiau blaenorol â chynghorwyr. Ac er bod y flaenraglen waith yn eitem sefydlog ar agenda pob cyfarfod pwyllgor, ychydig o drafodaeth a gafwyd ynghylch y blaenraglenni gwaith yn ystod y cyfarfodydd y buom yn eu harsylwi. Mae'r Cyngor yn archwilio cyfleoedd i sefydlu pum grŵp ardal ac yn disgwyl i faterion cymunedol a drafodir gan gynghorwyr yn y cyfarfodydd hyn gyfrannu at y flaenraglen waith craffu, lle bo'n briodol.

18 Mae pwyllgorau trosolwg a chraffu yn ceisio sicrhau cydbwysedd wrth gyflawni'r swyddogaethau a ragnodwyd ar eu cyfer. Wrth adolygu adroddiadau i bwyllgorau craffu dros y blynyddoedd diwethaf, cadarnhawyd bod cydbwysedd wedi'i sicrhau rhwng adroddiadau datblygu polisi ac adroddiadau'n canolbwyntio ar drosolwg a chraffu. Er bod craffu yn digwydd cyn ac ar ôl gwneud penderfyniadau, mae'n well gan gynghorwyr a swyddogion graffu cyn gwneud penderfyniadau; maent o'r farn fod cynnwys y swyddogaeth graffu'n fuan yn cyfrannu at broses benderfynu gadarn a thryloyw. O ganlyniad i hyn, ychydig o benderfyniadau gan y Cabinet sy'n cael eu galw i mewn.

19 Mae gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod gan y swyddogaeth graffu olwg dda ar waith archwilio, arolygu a rheoleiddio. Er enghraifft, mae'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol yn monitro'r holl adroddiadau ac argymhellion rheoleiddio allanol. Cyflwynir adroddiadau'n rheolaidd gerbron Grŵp Gwella ac Archwilio y Cyngor, a gerbron y Pwyllgor Archwilio sydd yn cyfeirio eitemau i sylw pwyllgorau craffu os oes angen. Caiff canfyddiadau o adroddiadau rheoleiddio eu hymgorffori ym mhroses adolygu perfformiad gwasanaethau'r Cyngor - proses y mae aelodau craffu hefyd yn cymryd rhan ynddi. Mae'r pwyllgor craffu perthnasol hefyd yn derbyn adroddiadau perfformiad corfforaethol sy'n crynhoi'r adolygiadau perfformiad ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf am weithgarwch rheoleiddio.

20 Caiff gwaith craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ei ymgorffori yn strwythur pwyllgorau craffu presennol y Cyngor. Bu'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau yn ystyried drafft a fersiwn derfynol o'r cynllun llesiant, y naill ym mis Tachwedd 2017, a'r llall ym mis Chwefror 2018. Bydd y trefniadau yn y dyfodol ar gyfer craffu ar Gyd-Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn dod yn gliriach ym mis Gorffennaf 2018, ar ôl ystyried y papur opsiynau y cyfeiriwyd ato uchod.

21 Cynhelir cyfarfodydd craffu yn effeithiol. Mewn adolygiad cynharach o drefniadau craffu o fewn y Cyngor, nodwyd bod cynghorwyr yn 'ymddwyn yn briodol ac yn ceisio bod yn adeiladol mewn cyfarfodydd pwyllgor, hyd yn oed os ydynt yn anghytuno'r naill â'r llall'. Yn dilyn etholiadau mis Mai 2017, mae'n dda gweld bod ethos 'Tîm Conwy' yn parhau, a bod cynghorwyr yn cydweithio mewn modd adeiladol. Yn y cyfarfodydd y buom yn eu harsylwi, roedd ymddygiad y cynghorwyr yn adeiladol, ac roedd y rhan fwyaf o'r aelodau craffu yn cyfrannu at y drafodaeth. Mae lefel yr her mewn cyfarfodydd yn amrywio, ond gwelsom enghreifftiau o ddadl gadarn a deallus. Roedd effeithiolrwydd y cadeirio o gymorth i sicrhau ffocws wrth ddadlau a chwestiynu, a bod hynny'n arwain at gasgliadau clir.

22 Bydd cyfarfodydd pwyllgor fel arfer yn cynnwys rhwng dwy a phedair prif eitem ar yr agenda; mae hyn yn adlewyrchu polisi'r Cyngor o gyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn cyfarfodydd fel bo modd cynnal dadl fanwl ac effeithiol ar bob testun. Fodd bynnag,

dywedodd rhai cynghorau wrthym fod agendâu weithiau'n rhy hir, a bod llwyth gwaith y Pwyllgor Economi a Lle yn fwy beichus o gymharu â'r pwyllgorau eraill. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pryderon hyn ac yn bwriadu adolygu llwyth gwaith y pwyllgorau yn rhan o'i adolygiad o drefniadau craffu a gynhelir yn fuan.

23 Bydd pwyllgorau craffu yn derbyn y rhan fwyaf o'u gwybodaeth o adroddiadau swyddogion, ond maent hefyd yn gwneud defnydd o ffynonellau eraill o dystiolaeth. Er enghraifft, bydd cynrychiolwyr o gyrff allanol fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bresennol mewn cyfarfodydd craffu, a bydd pwyllgorau'n gwneud defnydd effeithiol o grwpiau gorchwyl a gorffen er mwyn craffu'n fanylach ar faterion. Mae grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynhyrchu canfyddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu polisi, ac sy'n cael eu gwerthfawrogi'n eang. Mae'r adroddiadau a gyflwynir gerbron pwyllgorau craffu yn gynhwysfawr. Bydd uwch swyddogion yn adolygu adroddiadau o bwys cyn iddynt gael eu derbyn i'r broses ddemocrataidd, a bydd cadeiryddion craffu yn cynnal cyn-gyfarfodydd i adolygu adroddiadau drafft, a gofyn am ddiwygiadau neu wybodaeth bellach lle bo angen.

24 Nid yw'r Cyngor wedi llwyddo rhyw lawer i gynnwys y cyhoedd mewn gwaith craffu. Mae'r Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd- Trosolwg a Chraffu yn rhoi arweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses graffu, ac mae'r adroddiadau blynyddol ar graffu hefyd yn esbonio sut y gall y cyhoedd gymryd rhan. Mae agendâu cyfarfod pwyllgorau craffu sydd ar ddod ar gael ar wefan y Cyngor ynghyd ag adran ddefnyddiol ar y swyddogaeth graffu. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd gyflwyno ffurflenni cais am destun ar-lein ac i ddysgu sut i fod yn bresennol neu gymryd rhan mewn cyfarfodydd pwyllgor. Er gwaethaf hyn, dywedodd cynghorwyr a swyddogion wrthym mai anaml y bydd y cyhoedd yn bresennol, ac nad ydynt ond yn bresennol pan fydd materion cynhennus yn codi. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwella'r modd y mae ei swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Ailgychwynnodd we-ddarllediadau o gyfarfodydd pwyllgorau craffu dethol yn ddiweddar, ac archwilio ffyrdd i hyrwyddo ei Brotocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y Swyddogaeth Graffu. Y mae hefyd yn ystyried cynnal rhai cyfarfodydd craffu yn y gymuned, os oes eitemau ar yr agenda sydd o ddiddordeb arbennig yn lleol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor ffordd systematig o ymgysylltu â'r cyhoedd a gofyn am eu safbwyntiau mewn modd rhagweithiol, ac yn rhan annatod o'i drefniadau craffu.

## Mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu ond nid yw'n gwerthuso ei heffaith

25 Ym mis Awst 2014, ystyriodd y Cyngor sut y dylid dwyn deiliaid portffolio i gyfrif. Argymhellodd y swyddogaeth graffu y dylai aelodau Cabinet fod yn bresennol mewn cyfarfodydd craffu, ond mai swyddogion a ddylai gyflwyno adroddiadau er mwyn atal deiliaid portffolio rhag dylanwadu'n ormodol ar aelodau'r pwyllgor. Mae'r trefniadau hyn yn parhau i fod ar waith; ac roedd nifer o aelodau Cabinet yn bresennol yn y cyfarfodydd pwyllgor y buom yn eu harsylwi. Arweiniodd swyddogion y gwaith o gyflwyno adroddiadau ac o ymateb i'r heriau gan y pwyllgor, ond byddai'r deiliaid portffolio yn cyfrannu at drafodaethau'n aml. Fodd bynnag, er ei bod hi'n briodol i uwch swyddogion ymateb i geisiadau am fanylion, fel mater o drefn dylai'r pwyllgorau gyfeirio cwestiynau ynghylch

polisi a phenderfyniadau at yr aelod arweiniol perthnasol, fel ffordd o ddwyn yr aelod hwnnw i gyfrif.

26 Rhoddodd cynghorwyr a swyddogion enghreifftiau i ni lle'r oedd pwyllgorau craffu wedi cynnig ffyrdd o ddatrys problemau cydnabyddedig. Roeddent yn cyfeirio'n arbennig at waith grwpiau gorchwyl a gorffen, gan ddweud bod y grwpiau hynny'n gwneud gwahaniaeth; fel adolygiad y grŵp gorchwyl a gorffen o strategaeth arfaethedig ar gyfer asedau maes parcio. Bu'r grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried cynigion i gyflwyno ffioedd talu ac arddangos yn rhai lleoliadau, ynghyd â'r bwriad i gael gwared â rhai meysydd parcio. Bu'r grŵp yn archwilio'r materion yn gysylltiedig â phob lleoliad perthnasol, ac yn archwilio mesurau lliniaru posibl, gan ystyried adborth gan y cyhoedd a chynghorau tref a chymuned. Cymeradwyodd y Cabinet argymhelliad y grŵp i ddirprwyo awdurdod i'r Aelod Cabinet perthnasol i benderfynu ar y camau i'w cymryd ym mhob maes parcio, mewn ymgynghoriad â chynghorwyr lleol perthnasol a'r cyhoedd.

27 Mae'r Cyngor yn ymroi i wella ei swyddogaeth graffu. Yn dilyn ein hadolygiad Craffu Da yn 2014, ystyriodd y Cyngor ei drefniadau yn erbyn y meini prawf a osodwyd yn yr adroddiad cenedlaethol, ac aeth ati i ddatblygu a rhoi cynllun gweithredu ar waith. Bu'r Cyngor hefyd yn gwerthuso effeithiolrwydd ei swyddogaeth graffu ar ddechrau 2017. Bu grŵp gorchwyl a gorffen yn ystyried a oedd y trefniadau cyfredol yn addas i'r diben yn dilyn pryderon bod lefelau presenoldeb yr aelodau yn gostwng, a dryswch ynghylch yr enwau 'amwys' a roddwyd ar bwyllgorau. Gwnaeth y grŵp sawl argymhelliad, gan gynnwys newid enwau a chylchoedd gorchwyl y pwyllgorau, a gweithredwyd strwythur newydd ym mis Mai 2017. Mae presenoldeb yr aelodau hefyd wedi gwella - ar adeg ein hadolygiad 75% oedd y presenoldeb cyfartalog ar draws pob un o'r pedwar pwyllgor, sef cynnydd o gymharu â'r 65% yn 2016-17. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu'r trefniadau craffu newydd ar hyn o bryd; er enghraifft, er mwyn cynyddu ymgysylltiad cynghorwyr y seddau ôl yn y broses graffu, mae maint y pwyllgorau'n cynyddu o 15 i 19 o gynghorwyr.

28 Bydd gweithgarwch y swyddogaeth graffu yn cael ei adolygu mewn adroddiadau craffu blynyddol. Mae'r adroddiadau hynny hefyd yn adrodd ar ddangosyddion perfformiad craffu lleol, fel cysondeb â'r amserlen pwyllgorau a lefelau presenoldeb yr aelodau. Mae'r adroddiadau'n cynnwys llawer o wybodaeth, ond mae lle i ddangos yn gliriach beth fu effaith gwaith craffu yn ystod y flwyddyn. Byddai hyn o gymorth i'r Cyngor er mwyn nodi'n glir pa agweddau ar graffu sydd yn creu'r mwyaf o effaith, a sicrhau bod y swyddogaeth yn cynnig gwerth am arian ac yn addas i wynebu heriau'r dyfodol.

29 Mae swyddogion a chynghorwyr yn arddangos ymwybyddiaeth o'r heriau y bydd y swyddogaeth graffu yn eu wynebu yn y dyfodol. Mae cwymp parhaus mewn gwariant cyhoeddus, cynnydd yn y ffocws ar waith rhanbarthol, ansicrwydd ynghylch effaith Brexit a'r posibilrwydd o ad-drefnu Llywodraeth Leol yn heriau allweddol. Serch hynny, mae'r Cyngor o'r farn y bydd hi'n ddigon rhwydd addasu ei strwythur craffu er mwyn wynebu'r heriau hynny yn y dyfodol. Y mae'n archwilio sut y gellid gweithredu ymagwedd ar y cyd er mwyn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd yn defnyddio'r gwersi a ddysgir yn sgil hynny yn sail ar gyfer trefniadau eraill i graffu'n rhanbarthol.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

Dangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
| --- | --- |
| **Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?** | **Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn sbarduno gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwasanaethau Gwell'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae rôl y swyddogaeth graffu wedi'i diffinio'n glir ac yn cael ei gwerthfawrogi fel rhan o drefniadau'r cyngor ar gyfer gwella.<br>ii) Ceir swyddogion neilltuol i gefnogi craffu, sy'n gallu cyflawni gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, a darparu dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau Craffu.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Mae ymholiadau Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn gadarn o ran methodoleg ac yn cynnwys ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Yn rhan o'r broses trosolwg a chraffu bydd penderfynwyr a darparwyr gwasanaeth yn cael eu herio'n rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Bydd craffu yn cynnig ffyrdd ymarferol o ddatrys problemau cydnabyddedig sydd yn seiliedig ar dystiolaeth dda. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Wrth graffu'n dda, beth ydym ni'n ceisio'i gyflawni?** | **Beth fyddai'r nodweddion? Sut y gallem ei adnabod?** |
| **2. Gwneir penderfyniadau democrataidd mewn modd atebol, cynhwysol a chadarn.**<br>**'Gwell penderfyniadau'** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn derbyn y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl yn effeithiol.<br>ii) Derbynnir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y broses yn aml gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, sydd yn sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir i ddibenion craffu o ansawdd uchel, a'i bod yn cael ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Ymarfer**<br>iii) Arweinir y swyddogaeth graffu gan yr Aelodau, ac mae ganddi berchnogaeth ar ei rhaglen waith, gan ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a chyrff rheoleiddio. Y mae'n taro cydbwysedd rhwng rhoi'r flaenoriaeth i bryderon yn y gymuned a materion ac iddynt risg a phwysigrwydd strategol.<br>iv) Gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad a chyflawniad blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Mae cyfarfodydd a gweithgareddau trosolwg a chraffu wedi'u cynllunio'n dda, wedi'u cadeirio'n effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.<br><br>**Effaith**<br>vi) Bydd Aelodau Anweithredol yn defnyddio tystiolaeth i sicrhau bod penderfyniadau'r Weithrediaeth yn gytbwys.<br>vii) Mae penderfynwyr yn rhoi cyfrif yn gyhoeddus am eu cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn dadl ddemocrataidd ynghylch cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn y presennol a'r dyfodol.** | **Yr Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod bod craffu yn ffordd bwysig i'r cyngor ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Ymarfer**<br>ii) Mae craffu yn cynnwys cyfathrebu effeithiol i godi ymwybyddiaeth ynghylch atebolrwydd democrataidd, ac annog pobl i gymryd rhan yn hynny.<br>iii) Mae craffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol, ac yn ymdrin yn effeithiol â materion gwleidyddol sensitif, tensiwn a gwrthdaro.<br>iv) Mae craffu yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae trosolwg a chraffu yn ei gwneud hi'n bosibl i glywed 'llais' pobl leol a chymunedau ar draws yr ardal yn rhan o'r prosesau penderfynu a llunio polisi. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o'r adroddiad ar astudiaeth gwella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol, 'Craffu Da? Cwestiwn Da!' (Mai 2014)

Dangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Gwella Craffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• rhoi rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad a ddymunir; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Lle bo'n briodol, sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbwn gweithgarwch craffu wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso’n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio ‘canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol mewn llywodraeth leol’ a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â’r Cyhoedd er mwyn gwella’r ffordd y mae’r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â’r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales